"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] MAWRTH, 1883. [RHIF 19.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Crist y Credoau a Christ yr Efengylau	49
Gambetta	53
Y Ffynnon	57
Dybacco	58
Bywyd yr Iesu	61
Amcan Bywyd	65
Addysg Foesol Pregethau	67
Teuluoedd Cymreig a Seisnig yn y Weinidogaeth	68
Manion a Hanesion	69
Marwgofion	71
Barddoniaeth	72

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MAWRTH, 1883. [RHIF. 19.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

CRIST Y CREDOAU A CHRIST YR EFENGYLAU.

DARLITH

GAN Y PARCH. BROOKE HERFORD, U.D.A.

RHAN II.

YN awr gadewch i ni droi oddiwrth yr hen ymdrechion i gael allan beth oedd Crist trwy ymresymiadau ar ddirgeledigaethau mewnol ei fodolaeth, ac edrych i'r Efengylau i weled pa fath un oedd ef yn ei fywyd beunyddiol gerbron y byd. Y fath wahaniaeth hyd y nod ar yr olwg gyntaf! Mae'r credoau yn cael eu gwneyd i fyny o esponiadau a deongliadau. Yn yr Efengylau nid oes braidd unrhyw beth o'r fath. Yr hyn mae'r Efengylau yn llawn o hono yw bywyd. Pe byddech chwi ddim ond eu darllen yn achlysurol, mae yr argraff a gânt ar eich meddwl yn un neillduol—yn argraff o ddyn wedi ei ogoneddu â rhyw deimlad rhyfedd o Dduw, ac ar yr un pryd yn myned oddiamgylch gan wneuthur daioni, ac yn wastadol ar y ffordd yn tywallt allan wersi o ddoethineb dwfn am Dduw, dyledswydd a bywyd.

Wrth fyned yn agos ato, wrth edrych i mewn yn ofalus i'r Efengylau, ac wrth chwilio yn fanwl y pedwar hanes yma o Grist, mae y nodweddion ydym wedi grybwyll yn cymmeryd ffurf mwy byw yn barhaus o'n blaen. Yr ydych yn gweled y bywyd hwnw fel y daeth allan i olwg y cyhoedd, ac yr aeth oddiamgylch o le i le am ychydig flynyddoedd, ac yna yn diflanu ymaith. Yr ydych yn gweled yr hyn ydoedd yn ei amgylchynu—y genedl Iuddewig yn edrych yn mlaen yn angerddoldeb ei hiraeth at Fessiah mawr gwleidyddol. Yn eu plith mae un yn dyfod sydd yn dweyd "Myfi ydyw hwnw." Yspryd yr Ar-

glwydd sydd arnaf; o herwydd iddo ef fy enneinio i (hyny yw fy ngwneyd i yn Grist neu yn Fessiah) i bregethu i'r tlodion yr anfonodd fi, i iachau y drylliedig o galon, i bregethu gollyngdod i'r caethion a chaffaeliad golwg i'r deillion, &c. Dyna i chwi fyrdwn ei holl fywyd —y teimlad o'r genadwri fawr yna at ddynion oedd wedi ei gosod arno gan Dduw, yn ei arwain i ddangos iddynt fod gwir waredigaeth ac iachawdwriaeth yn gynnwysedig mewn edifarhau a chredu yn nghariad Duw, a byw fel ei blant dedwydd a ffyddlon—ac i ddeisyf arnynt i gredu hyn oll, i'w ganlyn ef, a myned i mewn gydag ef i'r deyrnas hono o eiddo Duw sydd oddifewn. Yn yr Efengylau yr ydych yn gweled sut mae hyn i gyd wedi dyfod allan mewn bywyd mor syml, etto mor hynaws a chariadus, fel mae wedi cymmeryd rhyw afael ryfeddol ar galon y byd. Nid oes gyda chwi yma ryw broffwyd neilldduedig yn llefaru yn yr anialwch, ond un yn byw yn nghanol twrf y byd, gyda llygad agored i weled natur a dyn—i weled lili y maes, adar y to yn tyru ar y gangen, yr ŷd yn tyfu, y benywod yn malu, y gweithwyr yn sefyll oddiamgylch y farchnadfa, y pysgotwyr yn cyweirio eu rhwydi—a rhyw air bychan tarawiadol am danynt i gyd sydd yn eu cyssylltu â phresenoldeb Duw ac iachawdwriaeth dynion, geiriau nad yw'r byd wedi eu annghofio etto. Yr ydych yn ei weled yn myned oddiamgylch gyda'i ychydig ganlynwyr—yn aros yn y man hwn a'r man arall, gan ddysgu'r bobl; yn dweyd wrthynt am deyrnas Dduw ag y ceisiai ef ganddynt i gredu ynddi; yn ymdrechu cyffwrdd eu calonau ag ymddiried yn y Tad nefol, a theimlad mwy caredig a chynnorthwyol at eu gilydd. Yr ydych yn gweled nad yw efe byth yn colli golwg ar unrhyw beth ag sydd o ddyddordeb dynol. Mae y wraig oedd wedi bod yn bechadures yn dyfod i mewn fel mae'n gorphwys wrth y bwrdd yn nhŷ Simon y Pharisead, ac yn sefyll tucefn iddo gan wylo; ei chalon wedi ei chyffwrdd fel nad oedd erioed o'r blaen. Ac nid yw Simon yn gweled dim ond pechadur cyffredin, un na fyddai efe ddim yn oddef i gyffwrdd ag ymyl ei wisg. Ond yr oedd yr Iesu yn gweled plentyn edifeiriol y Tad nefol; ac mae'n gadael iddi i dywallt yr enaint ar ei draed ac yn gorchymyn iddi i fyned ymaith mewn tangnefedd oblegyd fod ei ffydd wedi ei hachub. Mae Bartimeus ddall yn eistedd wrth borth Jericho, a thrwy dwrf llawer o draed mae'n clywed fod Iesu o Nazareth yn myned heibio ac mae yn codi ei lais am drugaredd. Fe allasai fod wedi galw nes bod yn grug, cyn y byddai ei gymmydogion yn gwneyd dim iddo ond dweyd wrtho am fod yn ddystaw, ond mae'r Iesu yn aros ac yn ei alw ato. Mae y mamau yn dwyn eu rhai bychain ato i gael ei fendith, ac mae'r dysgyblion am eu hanfon ymaith, gan feddwl na ddylai'r Messiah mawr gael ei flino gan haid o blant yn tyru oddiamgylch iddo; ond mae'r Iesu yn eu galw ato, mor dyner â phe bai gwneyd plant bychain yn hapus oedd ei genadwri i'r byd, ac yn eu cymmeryd yn ei freichiau gyda gair o gariad sydd wedi gwneyd y byd pryderus hwn yn well lle i blant bychain byth oddiar hyny. Nid yw'r pethau yma ond pelydryn neu ddau o oleuni y cariad hwnw sydd yn llewyrchu allan yn ei holl fywyd.

Fe allwch chwi ddweyd nad yw hyn yn ddim ond un ochr o'i fywyd —ei fywyd fel yr oedd ei wyneb at ddynion; a bod ochr arall, ei fywyd fel yr oedd ei wyneb at Dduw, ac yn cael ei ddyrchafu gan ei deimlad o Dduw. Yr wyf yn gwybod fod yr ochr hono. Yr wyf yn teimlo mor ddwys â neb y byddai yn gyfrif hollol anmherffaith o'r Iesu i feddwl am dano yn unig fel yn myned oddiamgylch, yn gwneyd, ac yn dweyd pethau caredig. Fe wnaeth hyn i gyd, ond tucefn i'r cwbl yr oedd ymwybodolrwydd cyfuwch â'r nefoedd, ac amcan oedd mor eang a dynoliaeth.

Yr ydym yn addef yr olwg fwy derchafedig yma ar fywyd Crist, ac yr ydym yn sylwi hefyd mai dyma yr hyn sydd wedi ymddangos i ddynion mewn oesau olynol fel yn cynnwys awgrymiadau o'i dduwdod tuhwnt i'r llen, ond i ni mae'r awgrymiadau yn ymddangos yn hollol wahanol. Yr ydym yn llawenhau yn yr amlygiadau goruchel hyny o berthynas Crist â Duw yn gymhwys am y rheswm hwn, oblegyd nad oeddent yn amlygiadau o Dduw yn dyfod i lawr, ond o ddynoliaeth wedi ei derchafu i fyny; oblegyd ei bod yn dystiolaeth o'r fath agosrwydd gogoneddus at Dduw, y fath fesur o ysprydoliaeth ag ydynt yn bosibl i ddyn, ac wedi ei sylweddoli gan ddyn unwaith yn hanes y byd. A ydyw y deongliad yma o eiriau goruchel Crist yn peri syndod i chwi? Ond ei esponiad ei hun ydyw. Nid oes un o'r dywediadau goruchel o eiddo Crist yn nghylch ei berthynas ei hun a Duw, nad yw efe ei hun yn ei ddefnyddio yn nghylch ei ddysgyblion:—"Y geiriau yr wyf fi yn eu llefaru wrthych, nid o honof fy hun yr wyf yn eu llefaru." Dyna ei dystiolaeth am dano ei hun. Gwrandewch arno hefyd fel mae yn cefnogi ei ganlynwyr i edrych i fyny at Dduw yn eu gweinidogaeth fel y byddo'r gair cymhwys i gael ei roddi iddynt, "oblegyd," meddai, "nid chwi sydd yn llefaru ond yspryd eich Tad sydd yn llefaru ynoch." Mae ef yn siarad am yspryd y Tad yn trigo ynddo ei hun, ac efe a ddywed wrthynt hwy hefyd, "Efe a drig ynoch chwi ac ynoch y bydd efe." Dywed am dano ei hun, "Myfi a'r Tad un ydym." Gwrandewch arno yn ei weddi, a chwi a'i cewch yn gofyn am iddi fod yr un modd gyda'i ddysgyblion, "Fel y byddont hwythau yn un, megys yr ydym ni yn un, myfi ynddynt hwy, a thithau ynof fi, fel y byddont wedi eu perffeithio yn un." A ydwyf fi yn camddeall y dull yma o siarad? Etto dyma y modd ag y deallai apostolion Crist y pethau yma. Oni chymmerent i fyny yr iaith yma a ddefnyddiai Crist am dano ei hun, ac onid oeddent yn edrych arni fel yn gosod allan esiampl o'r hyn y gall pob bywyd Cristionogol gyrhaedd ato? Y fath ymadrodd rhyfedd mae Paul yn ddefnyddio, "Ynddo ef mae holl gyflawnder y Duwdod yn trigo yn gorfforol." Yr ydym ni yn dueddol i ddweyd ar yr olwg gyntaf fod hwn yn ymadrodd am yr Iesu nas gellid ei ddefnyddio am ddyn; ac felly gallasem fod wedi meddwl, oni bai ein bod yn gweled yr un syniad yn cael ei gymhwyso gan Paul at yr Ephesiaid; oblegyd mae yn ysgrifenu atynt y dymuniad gogoneddus hwn, "fel y'ch cyflawner â holl gyflawnder Duw;" ac yn yr un modd gyda'r enw mwyaf cyssegredig o'r cwbl, "Mab Duw." Gallasech feddwl mai o braidd yr oedd Crist wrth ddysgu dynion i alw Duw

yn dad iddynt, yn tybied fod pawb i fod yn gyfranog o'i berthynas neilldnol ef ei hun a Duw; etto nid oes un gair i'w gael ag sydd yn dangos unrhyw wahaniaeth, oblegyd "cynnifer ag a'u derbyniasant ef, efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion i Dduw;" "Gwelwch y fath gariad a roes y Tad arnom ni fel y'n gelwid yn feibion i Dduw;" "Anwylyd, yr awrhon meibion i Dduw ydym, ac nid amlygwyd etto beth a fyddwn; eithr ni a wyddom pan ymddangoso efe y byddwn gyffelyb iddo, oblegyd ni a gawn ei weled ef megys ag y mae."

Nid ydym yn proffesu bod yn alluog i ddeall pob gair ag mae Crist yn ddweyd, i fyned i mewn i gyflawnder ystyr ei ddywediadau am ei fywyd gyda Duw. Nid yw yn debyg y gallem. Mae yn rhaid i ni ddyfod yn llawer agosach at Dduw ein hunain yn gyntaf. Ond mae yr un peth hwn yn ymddangos i mi fel yn sefyll allan yn glir ar wyneb y Testament Newydd, fod Crist yn ei fywyd agos, rhyfeddol gyda Duw, yn gymmaint ag yn ei fywyd tyner a chariadus gyda dynion, wedi gadael i ni esiampl fel y canlynem ei ol.

Ond, meddai rhywun, Ai y syniad yna am Grist fel dyn yw'r cwbl? Yr wyf fi yn credu mai dyna ydyw'r cwbl. Am danaf fy hun yr wyf yn dweyd yn agored fy mod yn credu nad oedd yr Iesu, ond dyn—dyn wedi ei eni mewn priodas onest, dyn wedi ei demtio yn mhob peth fel ninau, y goreu a'r mwyaf perffaith o'r hiliogaeth, ond etto yn ddyn. Nid oes gyda fi ddim i ddweyd yn erbyn unrhyw ddynion neu unrhyw Eglwys ydynt yn meddwl ei fod yn fwy nâ dyn, fod tucefn i'r bywyd prydferth a rhagorol hwn ryw ddwyfoldeb dirgelaidd, cyhyd ag y byddont yn cadw yn glir mewn golwg nad yw y syniad yma ag maent yn ddal yn ddim ond eu hesponiad hwy, eu ffordd hwy o gyfrif am y bywyd fel yr oedd ef wedi cael ei fyw; ac mai y bywyd yma, ac nid eu deongliad hwy o hono, yw y peth i gredu ynddo ac i'w garu. Ond er fy mod yn caniatau eu bod yn agored i gynnyg y fath ddeongliad o fywyd Crist, nis gallaf gredu mai dyna'r deongliad iawn. Yr wyf yn argyhoeddedig pa fwyaf y byddo dynion yn chwilio i fywyd Crist fel ag yr oedd, y mwyaf tueddol y byddant i ddyfod yn ol at ei ddynoliaeth syml; ac os gwnant hyny, beth yw ond dweyd, fod yr un argraff wedi ei chynnyrchu arnynt hwy ag ar y rhai hyny oeddent yn dystion beunyddiol o'i fywyd ar y ddaear. Yma mae un peth sydd yn ymddangos i mi nad oes ffordd i'w osgoi—y bywyd hwnw sydd yn ymddangos, fel yr ydym yn ei ddarllen, mor bell uwchlaw bywyd cyffredin yn ei ddoethineb a'i allu fel mae oesau dylynol wedi tybied fod Duwdod cuddiedig yn angenrheidiol i gyfrif am dano—ni ddarfu i'r bywyd hwn yn ngolwg y rhai oeddent yn dystion o hono, y rhai a'i gwelsant pan yr oedd ddysgleiriaf, y rhai a'i gwelsant nid trwy ddrych aneglur cofnodion anmherffaith, ond wyneb yn wyneb,—ni ddarfu iddo erioed awgrymu y fath feddwl, â'i fod ef yn Dduw.

(I'w barhau.)

Cyfieithad LAICUS.

MAE crefydd yn beth bendigedig i farw wrtho, ond yn beth mwy ardderchog i fyw wrtho.—*Christian Life.*

GAMBETTA.

Mae marwolaeth Gambetta, yn mlagur ei ddyddiau, yn un o'r dygwyddiadau difrifol hyny a ymddengys i gyfnewid mewn moment dynged cenedloedd, ac i newid cwrs hanesyddiaeth y byd. O'r ychydig wladweinwyr gwir enwog yn Ewrop, nid efe, ar adeg ei farwolaeth, ar un cyfrif, oedd y mwyaf galluog na'r mwyaf awdurdodol; er hyny, efe, feallai, oedd y mwyaf nodedig, oblegyd ymddengys y perthynai iddo ran helaethach o'r dyfodol. Am yn agos i flwyddyn, yr oedd ei ddylanwad a'i awdurdod gyda'i gydwladwyr o dan gwmmwl, a diffyg fel pe wedi ymlusgo dros haul ei enwogrwydd. Yr oedd yr adgof am ei weinyddiaeth fer ac anffortunus etto yn newydd ac yn wyrddlas, ac o'r braidd yr oedd wedi goroesi y gwawd y mae gweinidogion aflwyddiannus yn gorfod myned trwyddo yn Paris. Ond yr oedd enw Gambetta, er hyny, yn air o allu annhraethol gyda chorff mawr pobl Ffrainc. Efe o hyd oedd y cynnrychiolydd goreu iddynt o werinlywodraeth. Efe oedd wedi ei chreu hi, ac wedi ei harbed hi; efe oedd wedi sefyll wrth y llyw yn ei harwain hi trwy lawer cyfwng; ac arno ef etto, digon tebyg, yn gynar neu'n ddiweddar, y disgynai'r gwaith o wylied ar ei symmudiadau. Mae ei farwolaeth anamserol fel diffodd seren danbaid, neu symmud un o'r galluoedd hyny ag mae cydbwysedd amheus teyrnasoedd Ewrop yn ymddybynu arno. Mae gyrfa ddyfodol Gwerinlywodraeth Ffrainc yn cael ei gwneyd mor ansicr ag yw cwrs y llong sy'n cael ei dal yn ddisymwth gan groes awel ar ganol y môr. P'un a oedd Gambetta yn ddyn mawr neu peidio, yn wladweinydd dwfn, yn ddyn oedd wedi dysgu mesur yn gywir a llywio'n ddoeth y galluoedd gwleidiadol, yn mhlith y rhai yr ymsymmudai—mae gwahanol farnau yn bodoli ar y pwnc. Ond barn ddiwyro y byd, ar amser ei farwolaeth, oedd mai efe oedd Ffrancwr blaenaf ei oes, a'i fod wedi sefydlu ei hawl i gael ei osod yn rheng flaenaf gwleidyddion Ewrop.

Nid oedd bywyd Leon Gambetta ddim yn llai nodedig na llai argraffiadol nâ'i gymmeriad e'. Fel llawer o ddynion ag ydynt wedi codi i uchelfanau gallu yn Ffrainc, yr oedd o enedigaeth ddeheuol, ac o waedoliaeth Italaidd. Ganwyd ef yn Cahors ar y 3edd o Ebrill, 1838. Yr oedd ei dad, yr hwn sydd etto yn fyw, yn fasnachwr yn delio mewn llestri pridd: enw morwynig ei fam oedd Massabie. Genöad oedd ei daid, yr hwn a aethai i Ffrainc tua dechreu y ganrif bresenol: a chan fod ei enw yn golygu mesur o ddau gwart, meddylid fod yr enw yma wedi cael ei roddi iddo fel llysenw. Dyn tlawd oedd taid Leon Gambetta, heb un addysg, a meddyliai ei unig fab, sef tad Leon, ei fod wedi gweithio yn rhagorol, trwy agor siop ar y waddol fechan a ddygwyd iddo gan ei wraig, Mdlle. Massabie. Bu mam Leon farw pan nad oedd efe ond plentyn, ac yr oedd yn atebol am ei addysg foreuol i'w fodryb chwaer ei fam a'i brawd, yr hwn oedd offeiriad Pabaidd mewn pentref bychan heb fod yn mhell o Cahors. Bwriedid ar y cyntaf i Leon i ddylyn galwedigaeth ei dad; ond trwy ei fod yn blentyn rhywiog i ddysgu, ac yn hoff o lyfrau, penderfynodd ei ewythr a'i fodryb y bydd-

ai'n well ei osod yn yr ysgol gyda'r amcan o'i ddwyn i fyny i'r offeiriadaeth. Ymddengys nad oedd tad Leon ddim yn hoffi fawr o'r cyllun yma, oblegyd nid oedd ganddo ail fab i ddylyn y grefft a garai ef; ond yr oedd ganddo serch mawr at ei blentyn deallus, ac edmygedd o'i dalentau; a thrwy hyny, rhoddodd ffordd, gan gysuro ei hunan a'r meddwl y delai ryw ddiwrnod yn addurn i'r eglwys. Yn wir, pan yn blentyn, yr oedd yn hynod o grefyddol.

Mae gyrfa Leon Gambetta yn arfer yr un swyn a'r dylanwad ar gyfreithwyr ieuainc ag yw eiddo Napoleon I. ar swyddogion byddin. Dywedir fod llawer iawn ag sydd yn debyg yn eu cymmeriadau. Pan oedd Bonaparte yn llencyn yn yr ysgol yn Brienne,rhagddywedai ei athrawon am dano mai swyddog gwael a wnelai, oblegyd nad oedd ganddo chwaeth at *mathematics;* pan oedd Gambetta yn yr ysgol, dywedai ei feistri y byddai yn sicr o wneyd ei ol mewn bywyd, "Ond," meddent yn bendrist, "byth fel Eglwyswr." Dechreuodd yn dda, ond yr oedd yn eglur nad oedd ganddo flas at ddysgyblaeth lem yr eglwys; yr oedd yn rhy ddadleugar, a dim yn ddigon addfwyn i gymmeryd ergyd heb roi ergyd yn ol. Yr oedd yn ystyfnig, ac i raddau yn wrthryfelgar. Symmudwyd ei ysgol. Yn fuan iawn, enillodd opiniynau euraidd am ei gywreinrwydd, ei ddiwydrwydd, a bywiogrwydd hapus ei gymmeriad. Daeth yn un o ysgolheigion Lladinaidd goreu'r ysgol, ac yn fedrus dros ben mewn cyfansoddi yn y Ffrengaeg. Pan yn un-ar-bymtheg oed, cwrddodd â damwain, yr hon a ddystrywiodd ei lygad chwith, a llonyddodd am dipyn hoenusrwydd ei gymmeriad, ac a roddodd yn ddisymwth gyfeiriad newydd i'w fyfyrdodau. Yn ofni y byddai iddo golli ei olwg yn gyfangwbl, ymroddodd i ddysgu yr egwyddor ar gyfer y deillion, fel y gallai ddarllen â'i fysedd: ymroddodd hefyd i astudio cerddoriaeth a'r crwth. Am flwyddyn gyfan, gwaherddid iddo agor llyfr, ac ar hwyrnosau, arferai ei fodryb ddarllen iddo. Yr oedd yn y tŷ amryw gyfrolau o'r *Constitutionnel;* a phrif bleser y plentyn oedd gwrando ar ddadleuon seneddol y blynyddau hyny, pan oedd Thiers a Guizot yn ymdrechu am yr oruchafiaeth. Yr oedd ei fodryb, yr hon oedd yn ddiflino yn ei hymroddiad i'w nai difam, a'r hwn a garai fel plentyn, yn methu deall pa bleser oedd e'n gael wrth wrando ar areithiau hirion yn nghylch yr Aipht a Mehemet Ali, cydbwysedd gallu, rhyddid y wasg, &c.; ond yr oedd gan areithiau Thiers swyn annghymharol iddo; a digon tebyg mai i hyn y gellir priodoli llawer o'r ffydd londeb digymmysg a ddangosodd Gambetta tuag at Thiers mewn bywyd diweddarach.

O Cahors, aeth Gambetta i Paris i astudio'r gyfraith; ac yn fuan, tynodd sylw y *Police*, trwy ei fod yn actio fel *ringleader* yn yr arddangosiadau hyny oedd y myfyrwyr yn arfer wneyd ar adegau o gyffro cyhoeddus. Arddangosiadau heddychlawn oeddent bob amser, oblegid ni oddefai y *police* ddim byd tebyg i derfysg: ond yr oedd yn rhywbeth i fod ar flaen gorymdaith a gariai dorchau o flodau a phwysiau i'w taflu ar fedd rhyw werinwr neu gilydd, neu i arwain mintai o fechgyn nwyfus, penrhydd, i ryw *Theatre*, i hwtio oddiar yr esgynlawr ddarnau oeddent wedi eu hysgrifenu gan ryw Fonapartist, neu rywun anmhob-

logaidd arall. Yr oedd ganddo ddylanwad anwrthwynebadwy ar ei gydfyfyrwyr, fel yr oedd gair o'i enau, neu godi bys, yn ddigon i droi y fantol y naill ffordd neu'r llall.

Yr araeth gyntaf a draddododd Gambetta oedd yn 1861, mewn amddiffyniad i Marquis Le Guillois, golygydd papyr o'r enw *Le Hanneton.* Daeth rhyw gryndod annysgwyliadwy drosto cyn dechreu; ond cyn iddo allu ymdrybaeddu trwy ddwsin o frawddegau, stopiwyd ef gan y barnwr, yr hwn ddywedai yn dyner wrtho nad oedd eisieu defnyddio y fath eiriau mawrion, chwyddedig, mewn achos lle nad oedd y swm ond oddeutu pum' punt—"llai fyth," meddai, "pan mae'ch *client* yn rhydd." Arferai Gambetta ddweyd iddi gymmeryd blynyddoedd cyn iddo wella oddiwrth effeithiau cerydd dawel y barnwr. Fel llawer dyn ieuanc arall, cafodd allan nad yw hyawdledd ddim i'w gyrhaedd heb ymarferiad. Ymarferodd yntau. Fel y cybydd hwnw y dywedir iddo fyned rhyw ddiwrnod at Horace Vernet i wneyd iddo "rywbeth bach" mewn pensil i'w ddodi yn ei *album.* Gwnaeth Vernet y "peth bach," a gofynai 50 punt am dano. "Dim ond pum' mynyd fuoch yn ei dynu," meddai'r cybydd. "Ië, ond buais 30 mlynedd yn dysgu i wneyd e' mewn pum' mynyd," atebai Vernet. Ac felly yr oedd Gambetta; pan oedd dynion yn gwrando ar ei arabedd, ac yn cael eu swyno gan ei ymadroddion, ychydig oeddent yn gallu ddirnad am y pryder a'r gofal yr oedd ef wedi gorfod myned trwyddynt i barotoi ei areithiau,—am un o honynt, dywedai, "Ugain o weithiau yr oeddwn am ei thraddodi, ond teimlwn nad oedd hi ddim yma (gan gyfeirio at ei ben), er ei bod yn curo yma (yn ei fynwes), nes oedd fy nghalon yn barod i dori."

Traddodwyd yr araeth y cyfeirir ati yma ar yr 17eg o Dach., 1868, o flaen y barnwr nodedig hwnw Delesvaux (yr hwn sydd wedi cael ei alw yn Jeffreys yr Ail Ymherodraeth), mewn amddiffyniad i Louis Charles Delescluze, golygydd y *Reveil.* Yr oedd y *Reveil* wedi cychwyn tanysgrifiad tuag at godi cof-adail i goffadwriaeth y cynnrychiolydd Baudin, yr hwn a laddwyd yn 1851; a darfu i'r Llywodraeth, yn annoeth feallai, ddwyn erlyniaeth yn erbyn y golygydd. Yr oedd yn hwyr yn y prydnawn pan alwyd yr achos yn mlaen ar ol nifer o rai ereill; ond yr oedd yr ystafell yn orlawn o olygwyr a bargyfreithwyr pan eisteddai Delesvaux—dyn o olwg lem, dreiddgar—"gan ddarnio newyddiaduron â'i big a'i bawen," fel y dywedodd un am dano. Ar waith Gambetta'n codi, sylwodd Delesvaux, "'Rwy'n tybied nad oes genych lawer i ddweyd: felly, ni fydd yn werth i gyneu goleu." "Na hidiwch am y goleu, syr; mi dafla' i ddigon o oleu ar yr achos hwn," meddai Gambetta, ac yna cododd yn nghanol cymmeradwyaeth y dorf. Cafodd rwyddineb i siarad y diwrnod hwnw, a llefarodd o'r dechreu i'r diwedd heb un attalfa. Gan daflu bras-olwg dros achos ei *glient,* galwodd Napoleon III. ei hun i gyfrif, ac edrychodd yn ol ar yr amgylchiadau o dan ba rai y bu Baudin farw "yn amddiffyn iawnderau y llywodraeth werinol hono ag oedd Louis Bonaparte, yn groes i'w lw, wedi dreisio." Ar hyn, cododd y Barnwr Delesvaux ar ei sedd, a cheisiodd roddi taw ar y siaradwr; ond gorfodwyd arno eistedd drachefn gan floedd bendant ac unfrydol oddiwrth y dorf. Yr oedd yn arwydd o'r ddaeargryn

wleidiadol oedd yn agoshau fod Delesvaux wedi gorfod eistedd fel hyn; oblegyd yr oedd yn ddyn o benderfyniad cryf, a digon tebyg ei fod yn teimlo fod y ddaear yn crynu tano. Felly parhâai Gambetta i siarad, gan ddynoethi yn y modd mwyaf egnïol ormes a chamwri y deyrnasiad ag oedd wedi lladd rhyddid a sathru holl iawnderau Ffrainc; ac o'r diwedd, terfynodd yn y geiriau hyny ag oeddent yn fwy difrifol fyth gan dywyllwch yr ystafell a dystawrwydd dwfn, astud y gynnulleidfa: "Yn mhob gwlad ond hon, yr ydych yn gweled y bobl yn cadw yn gyssegredig y dydd pan mae y gallu llywodraethol yn esgyn i'r orsedd. Chwychwi yn unig sydd â chywilydd arnoch am y dydd y cawsoch goron wedi ei llychwino mewn gwaed—yr ail o Ragfyr, pan fu Baudin farw. Wel, ni gadwn ni, y Gwerinwyr, yn gyssegredig y dydd a wrthodwch chwi. Caiff fod yn ddydd o alar i'n merthyron ni, ac yn wyl ein gobeithion."

Cododd Gambetta yn fuan i fri a phoblogrwydd; ac yn etholiad gyffredinol 1869, dewiswyd ef yn ymgeisydd gan yr "*Irreconcilable Opposition*" yn Paris a Marseilles. Bu yn llwyddiannus yn y ddau le,—yn Marseilles yn flaenaf ar y rhestr, gan drechu trwy fwyafrif mawr ddynion mor adnabyddus â Thiers a M. de Lesseps. Gwnaeth Gambetta ei nôd yn fuan yn y senedd, ac edrychid arno fel un o siaradwyr mwyaf dysglaer ei oes. Protestiai yn erbyn carchariad M. Rochefort yn ngwanwyn 1870, a daeth yn un o arweinwyr mwyaf nerthol y blaid wrthwynebol. Fodd bynag, pan gyhoeddwyd y rhyfel â Phrwssia, nid oedd efe yn un o'r rhai mwyaf gwresog i'w gwrthwynebu; a'r sawl sydd yn cofio hanes dyddiau adfydus Awst, 1870, a gofiant ddarfod i Gambetta, fel gwleidiadwr a gwladgarwr, feddwl a siarad yn unig dros ei wlad a thros ei hawddfyd, ac ysgorniai roddi y gefnogaeth leiaf i unrhyw symmudiad â thuedd ynddo i wrthryfela a therfysgu. Naill ai oddiar deimlad o wladlywiaeth neu ynte o serch dros ei wlad, yr oedd yn foddlon i'r ymherodraeth i "yfed o'i chawl." Ond pan ddaeth Sedan, a'r daranfollt ar ol hyny, daeth Gambetta unwaith etto i'r maes. Yr oedd yn aelod o'r Llywodraeth Ddarbodol, a daeth yn weinidog—yn *Minister of the Interior;* ac yn rhinwedd y swydd hono, anfonodd allan genadwri i alw cyfarfod ar y 18fed o Hydref. Ond yn mhell cyn yr amser hwnw, yr oedd Paris wedi ei gwarchae gan y fyddin Germanaidd, a daliwyd y Llywodraeth, yr hon a gafodd y rhagweledíad i anfon dirprwyaeth i Tours, mewn magl. Yn y fath gyfwng, nid Gambetta oedd y dyn i aros mewn dinas amgylchynedig, pan nad oedd yn eisieu ond llywydd milwrol medrus, a phan oedd gweinyddiaeth gartrefol wedi sefyll. Yr oedd y ddirprwyaeth yn Tours yn farw ac yn annigonol, a theimlai y Llywodraeth yn Paris fod arni eisieu adgyfnerthiad. O ganlyniad, etholwyd Gambetta yn un o'i haelodau Hydref 7fed, a derbyniodd gyfarwyddiadau i fyned at ei waith heb oedi. Ufuddhaodd i'r cyfarwyddiadau yn llythyrenol ac yn uniongyrchol. Yr oedd Paris yn cael ei gwarchae yn ofalus, ac unig gyfrwng trosglwyddiad rhyngddi â'r talaethau oedd trwy awyren (*Balloon*). Gosododd Gambetta ei hunan mewn awyren; ac fel hyn, trwy ddianc o grafanc ei elynion, gwnaeth ei ffordd i Tours, ac yno y gweithiodd yn egnïol yn mhlaid ei wlad a'i genedl. Digon tebyg iddo wneyd camgymmeriadau yn ei ddewisiad o ddynion,

yn yr olwg a gymmerai ar ddygwyddiadau, ac yn ei fod yn cymmeryd arno'i hunan waith y byddai yn well ei adael i ereill—gwaith ag y bu yntau yn affwyddianus ynddo. Gorchfygodd y Prwsiaid, syrthiodd Paris, ac yr oedd Ffraine yn sarnfa dan draed ei gorchfygwr. Gallasai Gambetta godi gwrthwynebiad, ond nis gallai hawlio llwyddiant. Yr hyn a allai wneyd, a'r hyn a wnaeth, ac feallai yr hyn na aitai un Ffranewr byw arall byth ei wneyd, oedd adfer i Ffraine ei balchder a'i hunanbarch; a phan oedd ei llywodraethwr yn garcharor, a'i byddinoedd yn gaeth, dangos i'r byd fod y genedl er hyny yn bodoli, ac yn gwneyd yr hyn oll a weddai i genedl wneyd er anddiffyn ei hanrhydedd a'i gogoniant.

Nid yw ein gofod yn caniatau i ni ddylyn hanes ei fywyd am y deuddeg mlynedd dylynol. Mewn cymhariaeth, maent yn ffurfio rhan fwyaf anmarddonol ei fywyd. Cwrddodd à damwain ar y 27ain o Dach., mewn canlyniad i lawddryll i danio yn ddiarwybod iddo, ac i hono esgor ar achosion ereill, fel y bu farw nos Sul, Rhagfyr 31—ar drane yr hen ac ar gyffiniau'r *flwyddyn* newydd. Claddwyd e', nid yn barhaol dichon, yn "Macpelah" y teulu yn Nice; ac wrth derfynu byr hanes ei fywyd, mae yn annhosibl i beidio teimlo fod y byd yn dlotach o herwydd colli yn anamserol alla mor nerthol y oddo, a bod Ffraine wedi cael ei hamddifadu o'r unig wladweinydd a ddysgodd iddi i fod yn fyddlon iddi ei hunan byd y nod ar adeg o galedi ac anobaith.

J. H. D.

Y FFYNNON.

Mesur:—"Toriad y Dydd."

Mewn llecyn bychan gwyrddlas y tardd y ffynnon fach;
A thawel dreigla dros ei min y ffrwd risialog iach;
A llifa 'mlaen gan sisial ei chân wrth fyn'd trwy'r glyn;
A rhoddi adlewyrchiad wna ei drych o'r cwmmwl gwyn;
O hen ddarllawdy natur y tardd y ffynnon gun,
Yn ddiymattal ddydd a nos, a'i dyfroedd fel y gwin;
Gwir ddarlun o gysondeb yw'r ffynnon fach o hyd;
Mae'n gweini'n hael a gweini'n rhad o'i chell heb ball i'r byd.

'Does neb all roi attaliad ar ffrwd y ffynnon fyw;
Yn llywio hon er lles y byd mae llaw'r anfeidrol Dduw;
Y bugail yn sychedig a ddrachtia'i dyfroedd hi;
A'r anifeiliaid cyrchu wnant yn lluoedd at ei lli;
A'r teithiwr yn lluddedig orphwysa ar ei glan,
Gan ddrachtio'n hael a derbyn wna adfywiad yn y man.
Bu llawer un gan gystudd, yn isel iawn ei stad;
Ond heddyw mae yn canu cân i'r ffynnon am wellhad.

Risialaidd ffynnon fechan, difrychau yw dy li ;
Yn bur fel mae dy ddyfroedd clir, O boed fy mywyd i ;
Fel mae dy ffrwd yn teithio i fynwes môr, dy dad ;
Boed fy ngherddediad inau fyth ar ffordd y nefol wlad.
O cyrchwn bawb i'r ffynnon lle tardd y dyfroedd byw ;
A yf o hon cynnyddu wna ar "lun a delw Duw ;"
A'r diwedd fydd mynediad i wlad lle nad oes poen,
A byw yn swn yr afon dardd ger gorsedd "Duw a'r Oen."

Gwernllwyn, Gellionen. DAVID DAVIES.

DYBACCO.

GAN fod dybacco mor gyffredin a phoblogaidd, rhesymol yw meddwl fod fy erthyglau yn ei erbyn yn yr YMOFYNYDD ar y cyfan yn *an*mhoblogaidd. Maent efallai yn cael eu darllen ac yna eu rhegu, neu os nid eu rhegu, y maent yn cael eu difrio a'u gosod o'r neilldu fel sothach diles a dialw am danynt. Dyma'r caulyniad fynychaf, os nid bob amser, o fyned yn erbyn y byd ; ond dyledswydd yw dywedyd y gwir a hyny yn erbyn y byd os bydd y byd yn erbyn y gwir. "Llwyr ddirmygu mil yn gwgu." Ni ddylid synu na digaloni o herwydd hyn. Pwy erioed a ymosododd ar un o arferion llygredig yr oes heb gael ei feio mewn mesur mwy neu lai. Gwaned un ei law i nyth cacwn mae iddo ddysgwyl cael ei frathu. Os na wna'r ysgrifau yma o'm heiddo ddwyn llawer o ffrwyth yn uniongyrchol, yr ydys yn gobeithio fod dyfodol iddynt, ac y gwelir fod ynddynt fwy o synwyr a gwirionedd nag a welir ar hyn o bryd. "Bwrw dy fara ar wyneb y dyfroedd ; canys ti a'i cei ar ol llawer o ddyddiau." "*By and bye*," Mr. Golygydd.

Mae y ddwy erthygl flaenorol, fel yr wyf wedi cael ar ddeall, wedi gwneuthur peth gwaith :—maent wedi chwanegu *un* yn rhagor at rif derbynwyr yr YMOFYNYDD yn y gymmydogaeth hon, a hyny yn mherson merch ieuanc obeithiol, yr hon, fel y mae sail i obeithio, sydd wedi penderfynu na chymmer fyth un o feibion y pibau yn gydmar bywyd pan y byddo'n myned o flaen yr allor. Diolch i chwi, Mr. Golygydd, am y pennill prydlawn canlynol, a buasai yn dda genyf, pe yn alluog, ei osod mewn gwisg Gymraeg gerbron eich darllenwyr, yn neillduol y rhan fenywaidd o honynt :—

"May never lady press his lips
His proffered love returning,
Who makes a furnace of his mouth
And keeps its chimney burning ;
May each lone woman shun his sight
For fear his fumes might choke her ;
And none but those that smoke themselves
Have kisses for a smoker."

Mae'r gost sydd yn myned at rai pethau yn peri i ni arswydo rhagddynt, ond nid yw'r gost sydd yn myned at y dybacco yn cael yr un

effaith arnom, ac nis gwn paham. Fel y canlyn mae'n bod, ddarllenydd; mae dros wyth myrddiwn a hanner o *sovreigns* melynion bob blwyddyn yn y Deyrnas Gyfunol yn myned o bocedi gwyr y dybacco i bwrs y Llywodraeth, a hyny am ddim sydd o un daioni mewn gwirionedd. Chwe cheiniog y *pound* yw'r dybacco cyffredin ar ei ddyfodiad i'r wlad hon, a gosodir arno dri swllt a chwe cheiniog o *dduty*, yr hyn a'i gwna yn bedwar swllt y *pound*. Yn ol y cyfrif uchod, ychydig dál mae'r llaw-weithyddion yn dderbyn am ei weithio yn barod i'w gnoi a'i chwiffio, ac ychydig elw sydd i'r mán werthyddion am eu hamser a'u trafferth. Ond cofia di, ddarllenydd, mae'r tylwyth yma yn gofalu am danynt eu hunain o'r goreu. Mae'r dybacco wrth ei weithio yn cynnyddu yn fawr yn ei bwysau, gymmaint meddir á 58 y cant, h.y., y mae can pwys yn chwyddo i 158 pwys. Yn un peth, y mae yn cael ei leithio yn rhyw ffordd neu gilydd, a pheth arall, y mae rhyw nwyddau brwnt ac afiach yn cael eu cymmysgu ag ef, heblaw mawn, blawd llif, a gwimmon, y rhai ydynt bethau cymharol ddiniwed. Meddai Russel Lant Carpenter, "Pan oeddwn i yn Baltimore aethum i mewn i *Tobacco Warehouse* fawr, ac yno yr oedd mochyn yn cerdded yn ol ac yn mlaen, ac yn ymddangos yn hollol gartrefol yno; dynion duon, brwnt eu golwg, ac heb gadachau pocedi ganddynt at eu gwasanaeth pan fyddai eisieu, oedd yn tynu y dail oddiar y corsenau; ond gan nad oes gan ddynion lawer o wrthwynebiad i wenwyn nis gellir dysgwyl fod tipyn o faw yn un trafferth iddynt." Dywed un o ohebwyr y *New York Tribune* fod pump o bob wyth o'r *cigars* a werthir yn New York fel rhai atgludiedig (*imported*) yn cael eu gwneuthur yn y caban-dai mwyaf affan yn y ddinas hono. Mae'r dybacco yn cael ei wlychu lawr ac yn cael ei wasgar dros y nos hyd loriau'r ystafelloedd lle mae'r teuluoedd yn bwyta ac yn cysgu, ac y mae yn cael ei ddamsang ganddynt yn weddol ddiseremoni pan wrth eu gwaith. Yn y boreu, tra mae etto yn wlyb ac yn fawlyd, y mae yn cael ei blicio oddiar y corsenau gan y plant. Y gwir yw, ond a gredir gan ychydig, ni wyr y bobl druain beth yn y byd y maent yn ei gnoi a'i smocio, ond ei enw yw dybacco yn cael ei wneuthur i fyny o ddwr a baw a llawer o gymmysgedd arall. Nid glán iawn yw dim sydd yn cael ei adael dan draed moch a phlant.

Wel swm dda iawn ynte yw dros wyth myrddiwn a hanner o bunau bob blwyddyn i alluogi yr awdurdodau gwladol i dalu costau rhyfel, cyflogau gweision y Llywodraeth, *pensions*, segur-swyddau, &c. Chwaneger at hyn fwy nag wyth myrddiwn a hanner dair gwaith a delir gan blant y potau a'r gwydrynau, ac felly gwelir fod blys yn cyfranu yn helaeth dros ben er llanw'r Exchequer. Pa beth a wneid pe rhoid y dybacco a'r cwrw a'r gwirod heibio? Byddai yn rhaid i'n llywiawdwyr yn *Dories* ac yn *Liberals* fyw rhyw gryn lawer yn fwy diwastraff, neu edrych am arian mewn rhyw gyfeiriad arall. Mae'r *Income Tax* yn gyfleus iawn, ond trwy dynu yn rhy drwm a rhy aml o ffynnon diwydrwydd a chynnildeb fe sychai hon drachefn gydag amser, ac felly pob ffynnon arall. Y gwirionedd yw, ni feddylia'r awdurdodau am gynnilo tra y parhao arian ddylifo i mewn. Yr oedd Gladstone

yn cwyno y llynedd am y golled oedd wedi gael o herwydd fod y bobl yn sobri yn gyflym; a charwn glywed ei fod ef neu rywun arall yn cwyno yn awan etto fod cyllid y deyrnas yn ysgafnhau o herwydd fod y bobl yn diflasu ar y dybacco. Yr wyf wedi synu lawer gwaith fod gwragedd y dosparth gweithgar, yn enwedig, mor ymarhous. Pa faint eu hunanymwadiad gyda golwg ar ĉu cysuron teuluaidd er mwyn i'w gwyr gael cyflawnder o fyglys i'w losgi a'i gnoi! Cyst chwarter o hono swllt a thair ceiniog. Gwerir mewn blwyddyn dair punt a choron wrth chwarter yr wythnos. Pa faint o dê a siwgr, sebon, esgidiau neu ddillad i'r plant, neu ryw bethau sylweddol ereill sydd wir angenrheidiol a ellid brynu am gymmaint â hyn o arian! Lle mae cymmaint o dlodi mae'n enbyd meddwl fod cymmaint o wastraff. Gwelais yn ddiweddar mewn rhyw newyddiadur hanes am greadur o ddyn—dyn tlawd, ond er ei dlodi yn gwario o bymtheg ceiniog i hanner coron yr wythnos ar ddybacco, fel y bu rhaid iddo yn y diwedd fyned at un o *guardians* ei blwyf a dywedyd wrtho yn ddigon wynebcofn fod yn rhaid iddo gael tipyn o gynnorthwy neu ynte newynu yn raddol i farwolaeth, efe a'i wraig a'i blant. Digon tebyg mai ychydig wrandawiad gafodd y gwr hwn druan yn ei gyfyngder, ac nid rhyfedd hyny. Yr oedd ei achos yn go ddrwg. Dywedir fod y gwragedd weithiau yn gwisgo'r *breeches*, ac os gellir eu cyfiawnhau am wneuthur hyn mewn unrhyw achos, mae achos y dybacco yn un; a pheth rhyfedd na bae gwastraff yn eu gwyr yn eu gyru yn gynddeiriog. Y plant bychain yn ymyl bod yn noethion, yn crynu gan anwyd, newyn yn eu gwedd, a'u dillad a'u bara, mewn ystyr, yn cael eu troi yn fwg a lludw gan y tad yn ei bib! Pa fam deilwng o'r enw nad â yn wallgof braidd!

Nid yw'r dybacco, meddai rhywun, heb lawer o ddaioni yn perthyn iddo: dywedir ei fod yn *disinfectant*, neu yn wrth-heintiol, hyny yw, fod mwg dybacco mewn tŷ neu ystafell lle mae rhyw haint neillduol wedi dechreu aros yn help i ladd yr haint hono, puro awyr y lle a'i adfer i'w gyflwr iachus blaenorol. Mae hyn yn amheus; ond os yw dybacco i raddau yn gwneuthur hyn, mae llawer o bethau ereill yn *disinfectants* mwy rhad ac effeithiol. Atolwg, ai i'r perwyl hwn yr ydys yn 'smocio? Er mwyn mawrygu dybacco ac ymesgusodi am ei ddefnyddio, dywedir hefyd ei fod yn *prophylactic*, hyny yw, fod y sawl sydd yn 'smocio yn fwy annhebyg i syrthio i afael heintiau fyddo yn ymdaenu mewn cymmydogaeth. Y gwrthwyneb i hyn, yn fwyaf tebygol, sydd wir. Dywed dynion, y rhai y mae eu tystiolaeth yn deilwng o wrandawiad, fod 'smocwyr yn fwy agored i glefydau nâ rhai nad ydynt yn 'smocio, a bod ystafelloedd sydd yn drewi gan fwg dybacco yn rhwystrol i adferiad iechyd. Etto, pan mewn rhyw ofid neu gilydd, a'r meddwl yn pallu gweithio fel y dylai, "'smociwch," meddai rhywun, "ac wrth hyny aiff y gofid i ffwrdd, a daw'r meddwl i'w le. Mae chwiff yn awr ac yn y man i'r meddwl fel olew neu iraid ar echl trol." Nid wyf hyd yma wedi cael fy argyhoeddi fod 'smocwyr yn cael gwared o'u gofidiau yn hawddach ac yn gynt nâ dynion ereill. Mae genyf dystiolaeth fy mhrofiad fy hun ar y pen hwn: bum yn

'smocio fy hunan am flynyddau meithion, ac nid oeddwn pryd hyny yn llai gofidus ac yn fwy hapus nag ar hyn o bryd pan wedi llwyr ymwrthod â'r myglys. Gwn gymmaint â hyn, set fod ambell i ddyn pan heb ddybacco ac ddim mewn cyfle i'w gael ar unwaith, yn ddwl glân, yn ddall, yn fyddar, ac mewn cymmaint o boen, fel nad yw dda i ddim. Blys yw yr achos o hyn. Mae dybacco ar ryw olwg yn lles i hwn pan y mae fel hyn wedi syrthio i gymmaint o gaethiwed. Clywais i feistr unwaith aufon ei was pan yn y dwymyn ddybacco i godi bwlch mewn clawdd, ond beth a wnaeth y gwas yn ei ddyryswch meddwl ond tori bwlch arall yn ei ymyl! Ychydig ddiwrnodau yn ol yr oedd dyn o'r gymmydogaeth hon yn gweithio i mi ar hur, ac wrth ddadlu yn nghylch y dybacco dywedodd mai un o'i rinweddau ydoedd lliniaru chwant bwyd, hyny yw, y gallai, pan byddai rhaid weithiau, ddylyn ei waith trwy'r dydd, heb ond ychydig ymborth, ond cael chwiff yn awr ac yn y man. Druan â Jack, ei fod mor ffol â chredu dan effaith blys fod mwgyn bach ddwy waith neu dair y dydd yn gwneuthur y tro yn lle bwyd yn y cylla! Cam mawr a'r cyfansoddiad, yn gorff a meddwl, yw rhoi iddo ddybacco pan y mae yn gofyn bara. Un o rinweddau tybiedig ereill y myglys yw fod 'smocio pibed neu ddwy o hono yn cadw tymheredd y corff i fyny pan y mae'r hin yn oer ac yn wlyb iawn. Mae'r 'smociwr yn twyllo ei hunan yn fawr wrth feddwl fel hyn. Os yw yn teimlo yn llai anwydog wrth fygu nid yw felly mewn gwirionedd, ond syrthio y mae i radd o ddideimladrwydd dan effaith y gwenwyn sydd yn y dybacco. Mae y gïaeth neu y *nervous system* wedi cael ei marweiddio fel nad yw'r teimlad mor fyw ag y dylai fod. Pe gwnai'r 'smociwr wrth geisio gwresogi ei hunan â'r bib, wneuthur defnydd o'r gwresraddyr (*thermometer*) cai weled yn uniongyrchol fod ei dymheredd yn is yn hytrach nag yn uwch, yr un fath â phan dan effeithiau *Alcohol*.

T. S. Catti.

(*I'w barhau.*)

BYWYD YR IESU.

Gwers 3.—*Darllener Matt. iii.* 1—15, *a Luc iii.* 1—20.

Testyn,—Matt. iii. 1, 2.

Er mwyn deall Luc iii. 1, 2 yn iawn, rhaid cofio fod yr holl wledydd oddiamgylch Mor y Canoldir ar yr amser hwnw yn ffurffo rhan o'r ymherodraeth fawr Rufeinig o dan Tiberius Cæsar fel ei llywodraethwr. Yr oedd y rhan fwyaf o'r gwledydd hyn o dan reolaeth gwahanol raglawiaid Rhufeinig, fel yr oedd Judea o dan Pontius Pilat. Ond caniateid i rai tiriogaethau dibwys i fod mewn sefyllfa hanner annibynol, o dan dywysogion o'r eiddynt eu hunain, megys Herod, Phylip a Lysanias. Yr oedd mesur mawr o ryddid crefyddol yn cael ei fwynhau yn mhob man; ac felly yr oedd yr Iuddewon yn parhau i gadw eu harch-offeiriaid. Ymddengys ei bod yn debyg iawn yno i'r hyn ydyw ein llywodraeth ni yn India ar yr amser presenol.

Daeth yr amser o'r diwedd pan y teimlai'r Iesu ei hun yn cael ei alw i adael ei gartref tawel, ac i gymmeryd rhan mewn symmudiad mawr crefyddol, ar y cyntaf, er hyny, fel dysgybl yn unig ac nid fel arweinydd. Yr oedd yr holl genedl ar yr amser hwn mewn sefyllfa aflonydd iawn, yn awyddus i daflu ymaith yr iau Rufeinig, ac yn credu yn drwyadl y byddai i'w Duw yn fuan eu cynnorthwyo i wneyd hyn, ac wedi'n sefydlu ei lywodraeth ei hun, neu "deyrnas nefoedd" ar y ddaear. Annghyfiawnder gwleidyddol oedd yn eu blino, ond yr oedd eu gobaith am waredigaeth mewn modd neillduol yn obaith crefyddol. Credent eu bod wedi colli eu hannibyniaeth cenedlaethol o herwydd eu pechodau cenedlaethol, ac y gwnaent ei hadennill yn unig pan y byddai Duw wedi maddeu iddynt, a phan y dysgent ufuddhau iddo yn berffaith. Yn neillduol gobeithient am arweinydd mawr a fyddai yn cyffroi yr holl bobl i wrthryfela yn erbyn y llywodraeth Rufeinig, a dysgwylient y byddai Duw yn bendithio eu harfau â buddugoliaeth. Yr arweinydd hwn oedd y Messiah, gair yn golygu un wedi ei "enneinio" neu ei gyssegru i wneyd gwaith neillduol dros Dduw. Yn y sefyllfa yma aent allan yn dyrfaoedd i wrando ar broffwyd oedd yn cyhoeddi fod amser y waredigaeth yma gerllaw, ac yn pregethu gyda difrifoldeb mawr yr angen am edifeirwch fel parotoad ar ei gyfer, fel na byddai dyfodiad teyrnas Dduw mwyach yn cael ei oedi o herwydd pechodau y bobl. Gyda'r amcan yma yr oedd y proffwyd yn ffurfio cymdeithas o rai a edifarhaent ac a benderfynent i fod yn barod ar gyfer dyfodiad y deyrnas. Mae yn ddigon tebygol mai Ioan oedd y cyntaf i ddefnyddio y ddefod o fedydd i arwyddo maddeuant pechodau a mynediad i mewn i fath o gymdeithas santaidd; o herwydd hyn gelwid ef "y Bedyddiwr." Ond yr oedd ef yn ofalus i beidio honi unrhyw hawl mai efe oedd yr arweinydd dysgwyliedig, y Messiah neu y Crist. Dywedai mai ei waith ef yn unig oedd bod yn barotoad ar gyfer rhywbeth llawer gwell ac uwch. Teimlai'r Iesu ei hun yn cael ei gyffroi i ddyfod ac i uno â'r gymdeithas newydd. Yr oedd gan ddull nerthol Ioan o bregethu moesoldeb swyn neillduol ar ei feddwl a'i galon. Dywedai Ioan wrth bob dosparth o'i wrandawyr yn blaen pa rai oedd y pechodau parod i'w hamgylchu. Yr oedd y Phariseaid a'r Saduceaid bob amser yn hyderu ar eu disgyniad oddiwrth Abraham, fel pe byddai hyny yn ddigon, heb ddangos eu hunain yn deilwng. Ychydig iawn o gariad a fodolai yn mhlith y bobl yn gyffredin. Yr oedd y casglwyr trethi bob amser yn ceisio casglu mwy nag oedd yn ddyledus iddynt, er mwyn cadw rhagor iddynt eu hunain. Yr oedd y milwyr yn fynych yn wyllt ac yn ddireol; ac erioed ni fygythiwyd y fath bechodau gyda'r fath nerth â chan y Bedyddiwr. Nid yw yn rhyfeddod fod yr Iesu yn teimlo yn rhwymedig i fyned ac i wrando ac i gael ei fedyddio, gan ei fod yn gweled fod parotoad anfeidrol gwell ar gyfer y deyrnas ddyfodol yn cael ei gwneyd yma nâ chan holl addysg y Phariseaid. Ond nid oes un rheswm i dybied fod gan yr Iesu na chan neb arall ar yr amser hwn unrhyw syniad mai efe oedd y Crist dysgwyliedig.

Fe allai mai y prif beth a ddysgir gan y wers hon yw y ddyledswydd sydd arnom i ddefnyddio yr holl foddion ag mae Duw yn gynnyg er

parotoi ein hunain i wneyd gwasanaeth iddo ef, ac i ddysgu yr oll a allwn oddiwrth y proffwydi a'r athrawon y mae Efe yn anfon.

Gofyniadau ar Wers III.

(1) Pa beth oedd sefyllfa gyffredinol y meddwl Iuddewig pan y dechreuodd Ioan Fedyddiwr bregethu? Dangoswch y cyssylltiad rhwng y teimlad crefyddol a gwleidyddol. (2) Pa beth oedd sylwedd cenadwri Ioan? (3) Rhoddwch arwyddocad y ddefod o fedydd fel y defnyddid hi gan Ioan. (4) Yn mha ffordd yr oedd pregethiad Ioan yn neillduol yn swyno'r Iesu? Rhoddwch enghreifftiau o'r hyn a feddyliwch. (5) Eglurwch y geiriau Messiah a Christ yn yr ystyr y defnyddid hwy y pryd hwnw.

YR AIL RAN.

Y Weinidogaeth yn Galilea.

Gwers 4.—*Darllener Matt. iv.* 12.—*v.* 12. *Testyn,*—*v.* 6—9.

Buasai yn anhawdd iawn i'r Iesu i weithio o dan Ioan, oblegyd yr oedd ef wedi ei addasu i fod yn athraw yn hytrach nâ dysgybl; a gwnaeth amgylchiadau y fath berthynas yn anmhosibl. Darfu i Herod, tetrarch Galilea, llywodraeth yr hwn a gynnwysai randir eang o'r tu dwyrain i'r Iorddonen ddal Ioan, ei osod yn ngharchar, ac yn y modd hyny derfynu ei lafur cyhoeddus. Ond yr oedd ei waith mawr wedi ei wneyd; yr oedd wedi bod yn offerynol i alw yr Iesu i'w wasanaeth cyhoeddus; oblegyd pan y cauodd gwefusau Ioan am byth, teimlai'r Iesu yn sicr mai ei ddyledswydd ei hun oedd dyfod allan a chario yn mlaen y symmudiad. Ond dewisodd faes newydd i'w lafur; aeth yn ol i Galilea, ac ar ol rhoddi ffarwel i'w hen gartref yn Nazareth sefydlodd ei hun yn Capernaum fel canolbwynt ei weinidogaeth. Yno y pregethai pan y byddai cyfleusdra yn cynnyg, ac oddiyno yr ai allan i'r ardaloedd amgylchynol gan dynu sylw tyrfaoedd mawrion. Ymddengys hefyd ei fod yn iachau clefydau ac yn creu argraff mawr yn y cymmeriad hwnw. Yn fuan darfu iddo deimlo angen am gynnorthwywyr yn ei waith, a dechreuodd trwy ddewis pedwar o bysgotwyr. Yr oedd y rhai hyn yn ddiamheu wedi gwrandaw arno yn fynych; ac mae'n rhaid ei fod wedi gweled rhywbeth ynddynt i'w argyhoeddi y gwnaent "bysgotwyr dynion" o'r iawn ryw; felly un diwrnod gwahoddodd hwy i'w ganlyn, hyny yw, i roddi fyny eu galwedigaeth, a chyssegru eu hunain i'w waith ef. A darfu iddynt wneyd hyn heb un petrusder, heb feddwl mor fuan y byddai'r Athraw a garent ac a ymddiriedent ynddo yn cael ei gymmeryd ymaith a'r gwaith i gael ei adael yn eu dwylaw hwy.

Mae y ffaith fod yr Iesu yn dysgu yn y synagogau yn arwyddocaol, oblegyd mae'n dangos nad oedd ef, fel Ioan, yn *dechreu* trwy osod ei hun mewn gwrthwynebiad i arweinwyr a sefydliadau crefyddol ei amser, er mor ychydig gymmeradwyai o'r ddau. Ond heblaw dysgu

yn y synagogau, pregethai lawer hefyd yn yr awyr agored, ac mae sylwedd rhai o'r pregethau yma yn debygol wedi ei osod yn nghyd i ffurfio yr hyn a elwir "y bregeth ar y mynydd" (Matt. v., vi., vii.). O braidd mae'r tair pennod yma yn darllen fel un bregeth, ond ymddangosant fel hufen nifer o bregethau oeddent wedi eu cofio a'u casglu at eu gilydd. Ni a edrychwn yn awr yn fwy manwl ar brif nodweddion pregethu Crist.

Dechreuodd yr Iesu trwy daflu ei hun i symmudiad mawr poblogaidd ei amser, gyda'i ddymuniad a'i hiraeth am Fessiah a sefydliad teyrnas nefol ar y ddaear. Ond cymmerodd ef i fyny ochr grefyddol ac nid ochr wleidyddol y symmudiad. "Edifarhewch," meddai, "canys nesaodd teyrnas nefoedd." Yr oedd yn rhaid i ddyn feddwl am edifeirwch yn gyntaf, ac yna byddai Duw yn anfon y deyrnas. Ac nid oes gan ddyn amser i golli; yr oedd Duw yn dysgwyl am dano, yn analluog i wneyd Ei ran ei hun hyd nes oedd dyn yn gwneyd ei ran ef. Ni allasai Duw sefydlu ei lywodraeth ei hun yn gyflawn dros ei blant, hyd nes y byddai'r plant eu hunain yn foddlawn i ufuddhau iddo Ef yn berffaith, ac yn wir edifeiriol am eu holl ddrwg blaenorol; ond cyn gynted ag y cymmerai hyn le, yr oedd teyrnas nefoedd yn dyfod. Dyna ydyw rhywfaint o ystyr yr ychydig eiriau pwysig hyny, "Edifarhewch canys nesaodd teyrnas nefoedd."

Yr oedd yr Iesu wrth hyn yn cymmeryd i fyny lef Ioan ac yn cario yn mlaen ei waith; ond yn fuan gwelwn fod gwahaniaeth mawr rhwng y ddau athraw. Mae Ioan yn bygwth y rhai sydd yn dyfod allan ato fel "hiliogaeth gwiberod." Mae y Bregeth ar y Mynydd yn dechreu gyda'r Gwynfydau, y geiriau gogoneddus hyny sydd yn dweyd pwy yw y rhai gwir fendigedig. Dangosai Ioan i'r bobl y fath bechaduriaid oeddent; dangosai Iesu y fath saint allasent fod. Ceisiai Ioan ddychrynu pobl i edifeirwch a daioni; ceisiai'r Iesu gyfnewid eu calonau, fel y byddent yn cashau pechod ac yn caru rhinwedd. Yr oedd Ioan yn hyderu ar allu ofn; yr Iesu, ar allu cariad. Mae y gwynfydau yma yn rhoddi gwell syniad i ni nâ dim arall am yr hynawsedd a'r addfwynder oeddent yn nodweddu dechreuad gweinidogaeth yr Iesu, a'r swyn oedd ynddo i ennill dynion i'r deyrnas. Ond byddai yn dda i adgofio'r darllenydd o'r hyn a ddywedwyd o'r blaen, i'w osod ar ei wyliadwriaeth rhag tybied fod yr Iesu wedi cyhoeddi ei hun fel y Messiah hir-ddysgwyliedig. Dysgwylier hyd nes y deuwn at Wers yr unfed-ar-ddeg.

Gofyniadau ar Wers IV.

(1) Pa beth oedd yr achlysur neillduol pan y dechreuodd yr Iesu ei weinidogaeth? Yn mha le y dechreuodd? (2) Desgrifiwch gwrs cyffredinol ei lafur ar yr amser hwn. Beth mae ei addysg yn y synagogau yn arwyddocau? (3) Eglurwch y geiriau "Edifarhewch, canys nesaodd teyrnas nefoedd." (4) Crybwyllwch wahaniaethau sydd yn bodoli rhwng addysg yr Iesu ac addysg Ioan Fedyddiwr.

M. S.

AMCAN BYWYD.

I'r Ifanc.

Nid yw ond peth naturiol i'w feddwl a'i gredu fod pob peth y mae Duw wedi ei wneyd wedi ei greu i ateb rhyw bwrpas doeth a da. Cawsai y dyn hwnw, fuasai yn gweithio yn galed bob dydd heb un amcan da ganddo mewn golwg, ei ystyried yn ddyn annoeth iawn; a pheth sicr yw nad yw Duw, yr hwn sydd yn anfeidrol ddoethach nâ dyn, byth yn gweithio yn ofer. Y mae, gan hyny, amcan doeth i'w weled yn mhob peth sydd yn bodoli trwy y greadigaeth fawr o'r hon ydym ni, a'r byd ydym yn byw ynddo, yn gwneyd i fyny ran fechan o honi. Y mae gan y blodeuyn lleiaf sydd yn tyfu yn ein gerddi, y trychfilyn mwyaf distadl sydd yn mwynhau ei fodolaeth yn ngwres yr haul, ei le yn natur, ac mae yn gweinyddu rhyw gymmaint at y teimlad o brydferthwch, ac yn ychwanegu rhyw gymmaint at fwyniant dyn. Os nad yw Duw byth yn gweithio yn ddiamcan, os crewyd y pethau mwyaf distadl i ateb dybenion doeth a da, gallwn gasglu yn rhesymol ddigon fod gan Dduw amcan uwch mewn golwg pan greodd fodau dynol, ac a'u doniodd â galluoedd rhesymol, moesol a chrefyddol. Y mae yn beth da i feddwl am hyn ar brydiau, oblegyd fel ydym yn dyfod yn henach o ddydd i ddydd, yr ydym yn dyfod yn nes at yr amser y byddwn yn ddynion a menywod, a chenym ddyledswyddau dynion a menywod i'w cyflawnu. Y mae yn ffaith fod pobl ieuainc yn edrych yn mlaen yn obeithiol at y tymhor hwnw, ac nid oes yr un niwed yn hyny, os ydynt yn dysgu cyssylltu ag ef ddyledswyddau pwysig. Nid creadur deddf yn unig yw dyn, fel yr anifeiliaid is. Y mae Duw wedi rhoddi iddo ef reswm i lywio ei gamrau, a galluoedd moesol i'w alluogi i ddweyd a gwneyd yr hyn sydd iawn. Ni all gyflawnu amcan mawr bywyd ond yn unig pan y mae yn ceisio cyflawnu yn ffyddlon holl ddyledswyddau mawrion bywyd mewn yspryd doeth a chariadus.

Yn awr, pan y mae *Engineer* yn dechreu gwneyd ager-beiriant, gwyddom fod ganddo gynllun yn ei feddwl, ac oni bai y cynllun hwnw, ni fuasai yn gwybod beth oedd yn ymgymmeryd ag ef. Y mae yr ymresymiad yma yn dal ei dir gyda golwg ar bob peth y mae dyn yn gyflawnu. Y mae y meddwl yn myned o flaen y weithred, ac nid oes dim yn cael ei wneyd yn dda ac o ddifrif oddieithr fod gan ddyn amcan ymwybodol, neu gynllun yn ei waith cyn ei gyflawnu a'i berffeithio. Y bachgen sydd yn myned allan heb yr un meddylddrych i ba le y mae yn myned, y mae yn petruso, ac mewn amheuaeth. Buasai y dygwyddiad lleiaf yn gogwyddo ei feddwl fel hyn neu fel arall—i'r cyfeiriad *right* neu *wrong* fel y byddai yn dygwydd. Ond bydded iddo fyned allan yn y boreu i gasglu twff o flodau gwylltion i'w chwaer neu ei frawd bach sydd yn gorwedd yn sâl gartref, gwelwn ar unwaith pa mor gyflym y mae yn myned i blith y blodau amryliw a phêr eu harogl, ac mor ddestlus y mae yn eu gosod at eu gilydd, ac yna ffwrdd

â hwynt adref â gwên ar ei wynebpryd a chyda chalon lon! Y mae y meddwl am y llawenydd a weinant i'r un sâl gartref yn ei gadw rhag gwastraffu ei amser ar y ffordd, ac y mae y wên o gymmeradwyaeth sydd yn ei aros ar wyneb ei frawd neu ei chwaer fach yn ddigon o wobr iddo ef am ei drafferth. Drachefn, pan y mae dyn ieuanc yn gadael ei gartref am y tro cyntaf, ac yn myned i gymmeryd ei ran yn mrwydr bywyd, os bydd yn meithrin amcan moesol uchel yn ei galon, os dywed y mae yn *rhaid* i mi wneyd fy ngoreu i at-dalu y llafur a'r gofal y mae fy rieni wedi gymmeryd o honof, a'r cariad trwyadl y maent wedi ddangos ataf, trwy fod yn ffyddlon yn y cyflawniad o'i holl ddyledswyddau, bydd i'r fath benderfyniad i'w ddyogelu rhag llawer o brofedigaethau dychrynllyd.

Lawer o flynyddau yn ol yr oeddwn yn athraw mewn Ysgol Sul oedd ychydig ddynion ieuainc wedi ei sefydlu mewn heol gul a thywyll mewn dinas fawr a lluosog ei thrigolion, ac ar un boreu Sul daeth yno fachgen tlawd gan ewyllysio cael caniatad i uno â'm dosparth i. Yr oedd ei ddillad yn frwnt a bratiog iawn, ond yr oedd ganddo lygaid tanbaid a gwyneb deallus ac addawus. Dywedais wrtho y gallasai ddyfod i'r ysgol os addawai ei mynychu hi yn rheolaidd, a dyfod bob amser â gwyneb a dwylaw glân. Y Sul caulynol daeth drachefn, ac yr oedd ei wyneb a'i ddwylaw ychydig yn lanach; yr oedd yn amlwg ei fod yn awyddus i ymdrechu gwella a goleuo ei feddwl. Ymwelais â'i gartref, lle yr oedd yn byw gyda'i dad a'i fam, a brawd a chwaer mwy ieuanc nag ef ei hunan. Lle truenus oedd mewn heol gul a thywyll lle nad oedd yr haul i'w weled yn dysgleirio ond yn anaml. Addawodd ei rieni ei adael i ddyfod yn rheolaidd i'r ysgol, ac ymddangosent yn ddiolchgar am fy ymweliad â hwynt. Ymddangosai y bachgen ei hunan yn awyddus i ddysgu; ac er fod llawer o bethau nad oeddynt ddymunol yn perthyn iddo, etto gwyddwn nad oedd neb wedi dysgu yr un wers dda iddo, a chan ei fod yn cydchwareu â'r cymmeriadau gwaethaf bob dydd, yr oeddwn wedi parotoi ar gyfer hyny.

Dros ddwy flynedd mynychodd yr ysgol yn agos yn ddifwlch. Yr oedd wedi dysgu darllen yn dda erbyn hyny, a chydag ychwanegiad o dipyn o help ar nosweithiau yr wythnos, dysgodd ysgrifenu, a sicrhaodd wybodaeth weddol dda, i fachgen o'i fath, mewn hanesyddiaeth a daearyddiaeth. Darllenai gydag awydd mawr yr holl lyfrau allaswn gael iddo; ac un tro, pan oeddwn yn ymweled â chrwt yn agos i'r man oedd yn byw, cefais ei fod yn darllen llyfr oeddwn wedi roddi ei fenthyg iddo, i nifer o gryddion tra yr oeddynt wrth eu gwaith.

Gofynais iddo unwaith pa fodd oedd yn treulio ei amser hamddenol, ac adgofiais ef fod seguryd yn dwyn llawer o brofedigaethau gydag ef. Yr oedd ei ateb mor glir a da fel wyf yn cofio hyd y nod y funyd hon dôn ddymunol a soniarus ei lais pan atebodd,—"Yr wyf yn darllen, syr, a phan wyf yn gallu casglu pobl o'm hamgylch i wrando, yr wyf yn darllen iddynt hwy. Ar brydiau ereill yr wyf yn mynu darn o sialc, ac yn ysgrifenu neu wneyd *sums* ar y wal." Achosodd y fath ddiwydrwydd ddaioni annhraethol ar ei gymmeriad, ac yr oedd effaith

ei esiampl yn rhyfeddol er daioni ar ei gyfeillion o'i amgylch. Mor bell à hyn oedd wedi myned pan adewais ef yn y ddinas lle yr oedd yr ysgol hono; ond o gylch blwyddyn wedi i mi ymadael derbyniais lythyr oddiwrtho yn fy hyspysu ei fod wedi ei brentisio i ddysgu crefft, ei fod yn glynu wrthi, ei fod yn parhau i ddysgu ei lyfrau, ac yn darllen llawer, a'i fod yn gobeithio tyfu i fyny i fod yn fachgen da a defnyddiol yn y byd.

Y mae y geiriau dewrion yma, er oddiwrth fachgen, wedi dyfod i'm meddwl laweroedd o weithiau pan wedi bod yn siarad wrth neu yn dysgu ereill. Cwmpasodd gymmaint o wybodaeth, o herwydd fod ganddo amcan mewn golwg. Yr oedd ganddo un felly pan yn awyddus i ddyfod i'r ysgol fel y gallasai ddysgu darllen; yr oedd ganddo un felly pan ymdrechai ddysgu ereill i ddarllen; ac yr oedd ganddo un hefyd pan wnaeth y penderfyniad ardderchog i dyfu i fyny i fod yn fachgen da a defnyddiol. A phwy all ddweyd nad oedd hyn yn gymhorth mawr iddo ar lawer o brydiau pan ei temtiwyd ef laweroedd o weithiau i gyflawnu yr hyn oedd ddrwg?

Dylai pawb dynion ieuainc gofio nad ydynt wedi eu creu a'u danfon i'r byd i dreulio eu hamser yn segur a diamcan da, ond i fyw yn ddoeth, gweithgar a da.

Diau y bydd i brofedigaethau a threialon ddyfod i'w cwrdd; ond os glynant wrth ddyledswydd, a phenderfynu yn ddifrifol y caiff y byd fod yn fwy dysglaer, a bywyd dyn yn fwy santaidd, oblegyd eu hymdrechiadau hwy, yna bydd i'r amcan hyny eu codi uwchlaw profedigaethau, oblegyd bydd i hyny i'w dwyn i undeb gyda'r Duw a wnaeth y ddaear a'r nefoedd, blodau a choedydd, dynion a'c anifeiliaid, a'r hwn a'u gwnaeth hwynt oll mewn doethineb a phrydferthwch, fel y byddo iddynt gyflawnu amcan da a defnyddiol yn y byd.

O.

ADDYSG FOESOL PREGETHAU.

(Cyflwynedig i Cranogwen.)

(Gweler Ymofynydd *Ionawr.)*

Pregetha'r Trefnyddion,—Crist roddodd yn rhad,
Ei fywyd yn Aberth foddlonol i'r Tad,
Am holl droseddiadau bucheddol y rhai
Sydd wedi eu hethol, heb gyfrif eu bai.

Echo.—Heb gyfrif eu bai.

Pregetha'r Undodiaid,—Crist Iesu mewn pwyll,
Yn Siampl i'w ddylyn mewn buchedd ddidwyll,
A gadael y rhelyw mewn gweddi ddifrad,
Yn llwyr i drugaredd faddeugar y Tad.

Echo.—Faddeugar y Tad.

D'wed un nad yw buchedd ddibechod o werth,
Y llall dd'wed mai buchedd ddibechod yw'r nerth:
O ddifrif gofynaf â'm mynwes yn glyd,
Pa'r un sydd debyca i foesoli y byd?

Echo.—I foesoli y byd!

Dewi Dawel.

TEULUOEDD CYMREIG A SEISNIG YN Y WEINIDOGAETH.

Yn y *Christian World* "Year-Book" yr hwn sydd newydd ei gyhoeddi, ac yn cynnwys enwau (rhyw 13,000) gweinidogion Annghydffurfiol Prydain Fawr a'r Iwerddon, ceir fod yr enwau Cymreig Jones, Morgan, Williams, &c., yn llawer mwy lluosog nâ'r enwau Seisnig mwyaf cyffredin, megys, Smith, Robinson, Brown, &c. Mae y manylion yn gywrain pan gofiwn ni nad yw poblogaeth Cymru ond ychydig dros filiwn. Cyfrifa'r *Registrar General* yn ei adroddiad diweddaf, fod poblogaeth y Deyrnas Gyfunol tua chanol 1882 yn 35,280,299, poblogaeth Lloegr a Chymru yn 26,406,820; Scotland, 3,785,400; Iwerddon, 5,088,079. Nid ydym yn gallu gweled oddiwrth yr "Year-Book" fod yr Iwerddon yn rhifo'n uchel, ac nid yw yr enwau Ysgotaidd, megys, Macdonald, Anderson, Cameron, a Campbell, yn y cyfan yn gwneuthur ond ychydig, rhyw 100 i gyd. Mae yn wahanol iawn gyda'r enwau Cymreig, cawn yma ryw duedd gref iawn at y pulpud. O'r enwau Seisnig, ceir yn erbyn 40 Taylor, 40 o Recsiaid Cymreig, ac ar gyfer 70 Wilson cawn 90 Roberts. Yr oeddym yn gobeithio gweled yr enw Seisnig Robinson yn sefyll yn uchel. Nid oes ond 40 o'r enw hwnw, tra mae'r Thomasiaid Cymreig yn rhifo 170. Nid yw yr holl Clarkes, Hunts, Hunters, Parkes a Parkers ond yn dyfod i fyny i 110, tra mae Griffiths a Hughes yn unig yn rhoddi i ni 160. Yr oeddym yn meddwl y gwnai "Old England" rifo yn dda gyda'u Smiths a Browns; ond yma etto fe'n siomir; nid yw y Smiths a'r Smythes yn nghyd yn rhifo ond 150 tra mae Evansiaid Cymru yn 150; Davis a Davies, 250; a Jones uwchlaw yr oll yn 450. Nid yw y Browns ond 90. Yr Halls a'r Elliotts yn nghyd rhifant ond 55, tra y rhifa Morgans a Lloyds Cymru gyda'u gilydd 110. Dywedasom fod yma annghyfartaledd nad oeddym yn dysgwyl ei weled. Yn ddiamheu nad oes llawer ffordd i gyfrif am y ffeithiau. Nid ydym ni ond yn rhoddi y ffeithiau.—*Christian Life.*

Cawn heddwch pur o fewn,
Mewn mesur cyfiawn cywir,
Am bob deddf ufuddhewn,
A phob rhyw dda gyflawnir.—*Little Unity.*

Manion a Hanesion.

Cynghor yw addysg wedi ei ysgrifenu ar y tywod, ac yn cael ei olchi ymaith gan y llifeiriant; esiampl yw addysg wedi ei gerfio ar y graig.

Llyfr ydyw bywyd o'r hwn nis gall fod ond un argraffiad. Bydded gweithredoedd pob dydd, fel maent yn ychwanegu eu tudalenau at y gyfrol anninystriol, yn gyfryw ag y byddwn yn foddlon i'r holl fyd ddyfod yn nghyd i'w darllen.—*Little Unity.*

Nid yw un llwyddiant a gaffoch yn werth ei gael oddieithr i chwi orfod ymladd drosto. Beth bynag ennilloch mewn bywyd, rhaid i chwi ei orchfygu trwy eich ymdrechion eich hun; ac yna mae yn eiddo i chwi, yn rhan o honoch chwi eich hunan.—*J. A. Garfield.*

Yr hwn sydd yn wastad yn achwyn nid oes neb yn tosturio wrtho.

Pwy sydd ddoeth? Yr hwn sydd barod i ddysgu. Pwy sydd gyfoethog? Yr hwn sydd foddlawn. Pwy sydd yn cael anrhydedd iddo ei hun? Yr hwn sydd yn rhoddi anrhydedd i ereill.—*Little Unity.*

"Pam na ddarfu i chwi bocedo rhai o'r per yna?" meddai un bachgen wrth un arall. "Nid oedd yno neb i'ch gweled." "Yr ydych yn camsynied, yr oeddwn i yno fy hunan, ac nid wyf yn bwriadu gweled fy hunan yn gwneuthur dim sydd yn wael."

Dosparthwyd yn yr Ynysoedd Prydeinig 1,229,354,800 o lythyron yn 1881, yn gwneuthur cyfartaledd o 35 i bob person. Mae hyny 12 gwaith gymmaint ag oedd yn 1839, cyn adeg y *penny postage*, a phump gwaith gymmaint ag yn 1840, y flwyddyn ar ol hyny.

Yn ystod y flwyddyn 1882 y mae Mrs. Spurgeon wedi dosparthu 9,146 o gyfrolau heblaw 11,000 o bregethau unigol. Mewn saith mlynedd mae wedi lledaenu 50,770. A oes eisieu holi beth ydyw llwybr llwyddiant ar ol hyn? Pa faint mae ein cyfoethogion yn Nghymru yn wneuthur er lledaenu eu hegwyddorion?

Yr oedd rhifedi yr aelodau yn mhlith y Crynwyr (Quakers) yn 1882 yn 17,977. Mae 5790 yn mynychu'r addoliad yn rheolaidd: tua 25,000 yn yr Ysgol Sul. Mae gan y Crynwyr ddeg aelod yn y Senedd ac mae *Fund* eu Cymdeithas Ddyngarol yn cyrhaedd y swm ardderchog o £1,622,907.

"Bob dydd o fy mywyd" meddai Charles Dickens, "yr wyf yn teimlo fwy fwy mae bod yn drwyadl ddifrifol ydyw pob peth, tra bod yn fyr o hyny yw bod yn ddim."

Y gwanaf i'r wal.—Yn ol adroddiad y Genadaeth Forafaidd am 1882, mae cynfrodorion Awstralia yn diflanu yn gyflym iawn.

Dywedir fod yr *average attendance* mewn lleoedd addoliad yn Lloegr a Chymru rhwng 10 ac 11 miliwn. Pregethir bob Sul 80,000 o bregethau. Cyfrifir fod gweinidog ar gyfer pob 700 o'r boblogaeth a lle addoliad ar gyfer pob 500.

Dywed y "*Liberator*" am *appointments* diweddar Mr. Gladstone, sef, Canterbury, Truro, a Llandaff, eu bod feallai yn dda i'r Eglwys ond yn debygol o fod yn ddrwg i'r Sefydliad. Tybir fod y tri yn Geidwadwyr, yn Uchel-Eglwyswyr, a bod dau o honynt wedi dangos teimlad drwg at Annghydffurfiaeth.

Dywed un o'r beirdd Rhufeinig am rai ag oeddynt mewn ymddangosiad yn anfon eu gweddiau at Apollo, ond rhwng eu danedd yn gweddio ar dduwies y lladron fel yma: "O Laverna deg, dyro i mi y dalent i dwyllo heb gael fy nala, i gael y trechaf ar bawb fyddaf yn delio â hwy, ac ar yr un pryd i ymddangos yn gyfiawn a sanctaidd gerbron dynion." Wn i a oes rhai tebyg i'w cael yn Nghymru?

Mae pob gwybodaeth yn cyfranogi mwy neu lai o ysprydoliaeth. Nid yw ein cynneddfau meddyliol yn ffynonellau gwirioneedd. Ynddynt ac o honynt eu hunain, nid ydynt yn gweled dim nac yn gwybod dim.—*Hedge.*

Yn ol Meyrick (History of Cardigan, p. 150), yr aelod Seneddol cyntaf dros Sir Aberteifi oedd Dafydd ab Llewelyn Llwyd, yr oedd hyny yn amser Harri yr Wythfed. Pa bryd y pennodwyd aelodau dros y sir oedd ereill o Gymru? a phwy oedd y rhai cyntaf?

Yr oedd yn arferiad yn nheyrnasiad Elizabeth i gadw copi o "Lyfr Merthyron" Foxe yn yr Eglwysi, er mwyn cyfleusdra i'r plwyfolion yn gyffredin gael ei ddarllen, a chadw mewn cof greulonderau amser Mari, ac felly i feithrin casineb at babyddiaeth. Dywedir fod hyn yn cael ei wneuthur ar orchymyn y frenines.—*Greenwood's Journal*, p. 179.

LLANBEDR.--Cynnaliodd Ysgol Sul Brondeifi ei Gwyl De Flynyddol eleni ar yr 8fed o Ionawr. Cyfranogodd dros 120 o bobl a phlant o'r danteithion. Yn yr hwyr cafwyd gwledd feddyliol lwyddiannus iawn. Yr oedd y cantorion a'r adroddwyr a phob un oedd â llaw yn y cyfarfod fel pe ar eu goreu i'w wneyd yn ddyddorol.

DOWLAIS.—Nos Iau, Chwef. 8fed, traddodwyd Darlith yn yr *Oddfellows' Hall*, gan C. Russell James, Ysw., ar "Ysbaen yn nghyd â phrif dref Portugal." Rhoddodd y Darlithydd ddesgrifiad bywiog a dyddorol o brif drefydd Ysbaen, ac yna manylodd ar arferiadau a thueddiadau y bobl, gan gyfeirio yn neilluol at eu prif difyrwch, sef "Ymladdfeydd Teirw." Dywedodd fod yr Ysbaeniaid yn foddlon aberthu eu dillad er siorhau sedd yn yr *Amphitheatre*, i weled y galanasdra ofnadwy a wneir ar fywydau Teirw a cheffylau. Na wawried y dydd pan y cyfnewidia y Cymry eu Heisteddfod am wyl genedlaethol yr Ysbaeniaid. Yn absenoldeb D. Williams, Ysw., Cyn Uchel-Gwnstabl, Merthyr—y cadeirydd apwyntiedig—cadeiriwyd gan T. F. Harvey, Ysw., yr hwn a anogodd bobl ieuainc Cymru i ddarllen mwy o hanes gwledydd nag y maent, fel y gallant cangu eu gwybodaeth. Diweddwyd trwy dalu diolch i'r Darlithydd am ei wasanaeth rhad ac i'r cadeirydd am lywyddu. Yr oedd oddeutu 400 yn bresenol.

CEFNCOED.—Mae y *Glee Party* sydd wedi cael ei ffurfio yma gan Mr. William Harries, y gwehydd, wedi bod yn ddiwyd a gweithgar yn ystod misoedd y gauaf hwn. Meddyliai aelodau y Parti y byddai yn lled ddifywyd a digyffro heb rywbeth i'w difyru mewn ffordd ddiniwed, a chymmeryd i fyny eu hamser hamddenol. Felly penderfynasant ymgymmeryd â dysgu "Caban 'Newyrth Twm," yr hwn a drefnwyd gan Mrs. Thomas, Caerfyrddin, a'r hwn oedd wedi bod mor llwyddiannus yn Llandyssul cyn hyny. Dechreuwyd ar y gwaith tua dechreu Hydref, a phan ddaeth yr amser nid oedd un adeilad ar y Cefn yn ddigon eang i gynnwys banner y dorf oedd yn ymdyru i'w wrando. Actiwyd ef yr ail waith, y drydedd waith, ïe, y chwechfed waith, a bob tro cawsom dyrfaoedd ardderchog, y rhai a ymddangosent i gael pleser a mwyniant digymmysg wrth wrando arnom. Gweithiodd yr holl barti —tua 40 mewn nifer—yn egniol, er dwyn eu gwaith i ben yn llwyddiannus. Mae yn mwriad y Parti i gael rhywbeth tebyg etto cyn bo hir.

FE all peth fod yn iawn ag nad yw yn hyfryd, a pheth arall yn hyfryd ag nad yw yn iawn.—*Little Unity.*

MAE dedwyddwch neu drueni yn y meddwl ei hunan. Y meddwl yw yr hyn sydd yn byw, a dylai hyd bywyd gael ei fesur wrth rifedi a phwysigrwydd ein meddyliddrychau ac nid wrth rif ein dyddiau.

MAE pob ymholiad a wneir gan blentyn bach yn ymostyngiad tuag at enaid pethau; ac y mae pob cwestiwn a atebir yn iawn a phob deddf a ddeallir, yn cynnyrchu tyfiant meddwl y plentyn tuag at y byd sydd yn gorwedd oddiamgylch iddo.

NASTY WELSH.—Mewn tai mawrion, gwn fod yn ddiweddar, os nid etto, ryw lestr a elwid y *Welsh-Box*, i ba un y byddai hyd y nod y gwaelaf o'r gwasanaethyddion yn gorfod talu ceiniog o ddirwy am bob gair o Gymraeg a ddiangai dros ei wefusau; yr arian a gedwid yno hyd ryw amserau o wyliau, pan y byddai y *Welsh-Box* yn cael ei agoryd, a'r arian eu dwyn allan i gael gwneyd yn llawen arnynt. Bum yn ymddyddan ag un a fuasai yn fam-maeth mewn teulu boneddigaidd yn un o drefi Cymru, a gorchymyn oedd yno na leferid un gair o Gymraeg, nid yn unig *wrth*, ond hefyd *yn nghlyw* y plentyn, rhag diwyno ei Saesonaeg. Mewn tref fawr arall, yn Neheudir Cymru, mewn un tŷ, yr oedd y *Parrot* wedi ei ddysgu i swnio â llef ddynol, *Nasty Welsh*, yn groyw ddigon, er mawr ddifyrwch i haid o ffyliaid o'i gwmpas.—GWION yn *Seren Gomer*, 1831, tud. 129.

NOTTAGE.—Yr ydys wedi sefydlu yma yn ddiweddar "Gymdeithas er liwygio y naill y llall" (*Mutual Improvement Society*), yr hon sy'n debyg o brofi yn fendith fawr i'n pobl ieuainc. Cynnelir hi bob nos Fercher, pryd y darllenir papyr ar ryw bwnc dyddorol gan rywun o'r bobl ieuainc, ac y gwneir sylwadau byr arno gan ychydig ereill. Yr ydym wedi cael papyrau ardderchog fel y canlyn:—(1.) "Bywyd Garfield," gan Mr. W. J. Phillips; (2.) "Thomas Edward, y Naturiaethwr," gan y Parch. W. Parry; (3.) "Sister Dora," gan Miss Thomas; (4.) "Dyn yn yr Oesau Cyntaf," gan Mr. W. J. Phillips. Mewn addewid mae "Dynion hynod a'u hynodion," gan Miss Bevan; a "Iolo Morganwg," gan T. Griffith. Mae'r Gymdeithas wedi profi hyd yn hyn yn fwy llwyddiannus nag y dysgwyliem, a'r papyrau oll yn hynod o dda. Nos Lun, Chwef. 12fed, cawsom *Entertainment* llwyddianus iawn, pryd yr aethpwyd trwy *brogramme* da o ganeuon, dadleuon, ac adroddiadau.

Derbyniasom beth *help* gan gyfeillion tu-allan ein capel, ond ein pobl ieuanc ein hunain a wnaeth y rhan fwyaf o'r gwaith, yn enwedig Miss Jones a Mr. W. J. Phillips.

PRIODASAU.

Ionawr 24ain, yn nghapel Aberduar, ger Llanybyther, gan y Parch. H. James, a'r Cofrestrydd, Mr. Price James, Castellcoch, Pencareg, â Miss Anne Evans, Felinban, Llanwnen.

Chwefror 16eg, yn Pantdefaid, priodwyd gan y Parch. T. Thomas, Mr. D. Thomas (Dewi Glan Cerdin), a Miss Letticia Jones, Danfynwent. Byd gwych fo iddynt.

Hen gadnaw Glancerdin sydd 'nawr yn y ddalfa,
Ond nid heb i'r filain hir amser ryfela ;
O'r cniw a'i dilynodd mewn helfa boeth, ddibaid,
Lett gafodd y *brwsh* yn nghor mawr Pantydefaid. BEN.

Marwgofion.

Tachwedd 15fed, 1882, yn 57 oed, Jane Lewis, Ffynnonoedd, Ystrad. Claddwyd hi yn Ystrad y Llun canlynol. Cyn cychwyn o'r tŷ pregethodd W. Rees, Rhydygwin, oddiwrth Preg. vii. 13., a chymmerodd y Parch. B. Phillips, Tynygwndwn, ran yn y gwasanaeth. Fe deimlir hiraeth ar ei hol nid yn unig gan ei rhieni oedranus, a'i mab, a'i brawd, a'i chwaer, a'i pherthynasau, ond gan bawb a'i hadwaenai trwy'r ardal.

Tachwedd 26ain, bu farw Rebecca Williams, Cefnisaf, Cefncoed, yn 73 mlwydd oed. Yr oedd Rebecca wedi bod yn aelod yn Hen-dy-Cwrdd y Cefn, am flynyddau lawer, ac wedi bod yn mynychu yn rheolaidd hyd yr ychydig flynyddau diweddaf, pryd y caethiwid hi i'r tŷ gan nychdod a henaint. Dydd Mawrth canlynol claddwyd hi yn mynwent yr Hen-dy-Cwrdd, pryd y gwasanaethwyd gan J. H. Davies.

Rhagfyr 10fed, yn 70 oed, Jane Jenkins, anwyl briod David Jenkins, Frondes, Ystrad. Claddwyd hi y dydd Mawrth canlynol yn yr Ystrad. Cyn myned o'r tŷ pregethodd W. Rees, Rhydygwin oddiwrth 1 Cor. xv. 19. Bu am flynyddau yn aelod rheolaidd o eglwys Rhydygwin, lle yr arferai addoli tra bu yn alluog i ddod i'r addoliad. Gadawodd briod anwyl a phlant ac wyrion ar ol.

Rhagfyr 13eg, yn 31 oed, ar ol hir nychdod o'r darfodedigaeth, Eleanor Davies, anwyl wraig Daniel Davies, Tanygraig, Ystrad. Gadawodd ar ei hol briod a thri o blant, nid yn unig i alaru ar ei hol, ond hefyd i deimlo colled nas gellir yn hawdd ei wneyd i fyny. Gadawodd hefyd dad a mam dyner a brodyr ar ol mewn hiraeth.

Rhagfyr 29ain, yn 72 oed, Watkin Williams, Sychnant, Cellan. Claddwyd ef y dydd Llun canlynol yn mynwent Caeronen. Daeth tyrfa fawr yn nghyd i'w hebrwng tua'r gladdfa, a phregethodd y Parch. R. C. Jones. Yr oedd yn aelod defnyddiol o eglwys Caeronen. Gobeithio y cyfyd Duw rywrai i lanw i fyny le yr hen bobl sydd yn ein gadael. Gadawodd fab a merch i alaru ar ei ol.

Ionawr 17eg, 1883, yn 69 oed, William Saunders Davies, Commercial House, Felinfach, Ystrad, yn dra annysgwyliadwy i'w deulu a'i gymmydogion, er ei fod wedi bod yn anhwylus am fisoedd, yr oedd y poen wedi ei adael, a chredai ei fod yn gwella. Aeth i orphwys y nos hono heb deimlo dim yn waeth, a chyn y boreu yr oedd wedi huno yn yr angau. Gadawodd wraig, a mab a merch i alaru ar ei ol. Collodd ei briod wr serchog a'r plant dad gofalus a thyner. Ffydd yn addewidion yr Efengyl fyddo yn gysur iddynt yn eu galar. Yn yr angladd pregethodd W. Rees, Rhydygwin, oddiwrth 2 Cor. v. 1, a chymmerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parch. B. Phillips, Tyngwndwn, a'r Parch. — Williams, Rhydybont. Claddwyd ef yn yr Ystrad.—G.

Dydd Sadwrn, yr 20fed o Ionawr diweddaf, yn 22 oed, bu farw Thomas, mab Jenkin a Mary Jones, Gwar-cwm-march, Llandyssul. Yr oedd yr ymadawedig yn ddyn ieuanc o ymarweddiad rhagorol, yn un o ffyddloniaid yr Ysgol Sul yn Pantdefaid, a theimlir colled mawr ar ei ol. Claddwyd ef y dydd Mawrth canlynol yn mynwent Pantdefaid. Pregethodd y Parch. T. T. ar yr achlysur.

Ionawr 27ain diweddaf, yn 70 oed, bu farw Thomas Jones, Saer, Blaenpantycreuddyn, Llandyssul. Claddwyd ef yn

Pantdefaid y dydd Mawrth canlynol, a phregethodd y Parch. T. T. ar yr achlysur. Yr oedd yr ymadawedig yn aelod o gynnulleidfa Pantdefaid, ac yn ddyn diymryson a didramgwydd yn y gymmydogaeth.

Chwefror 3ydd, bu farw Mary Elizabeth, merch fechan Benjamin Davies, Penydarren, yn ddwy flwydd oed. Claddwyd hi y dydd Mawrth canlynol yn mynwent yr Hen-dy-Cwrdd, Cefn, pryd y gwasanaethwyd gan J. H. Davies.

Dydd Llun, y 5ed o Chwefror diweddaf, yn 28 oed, bu farw Edmund Jones, Blaencwmyrefel, Talley, sir Gaerfyrddin. Ni fu ond wythnos yn glaf, ond dyoddefodd gystudd trwm dros yr amser. Claddwyd ef y dydd Iau canlynol yn Capelygroes, a gweinyddodd y Parch. T. T. ar yr achlysur. Gadawodd yr ymadawedig weddw a saith o blant bychain ar ei ol, yr ieuengaf o honynt ond tair wythnos oed. Hyderwn y bydd y Tad nefol yn darian ac yn gymhorth iddynt.

Barddoniaeth.

MR. GLADSTONE.

Trwy holl ynysoedd gwaraidd Ion,
Mae son am Mr. Gladstone ;
Yr enaid mawr sy'n llawn o wres
Yn gweini lles i ddynion.

Mae'n eistedd ar ei orsedd ferth,
Yn llawn o nerth a synwyr ;
Nid oes ei ail o dan y rhod
Yn haeddu clod gwladgarwyr.

Rhagluniaeth Ior a'i cadwo'n fyw
I ddal y llyw heb flino ;
Can's trwy ei allu mawr didrai
Mai'n brodyr gau 'n encilio.

Dyrchafer clod ein llywydd cu
Am oesau dirifedi ;
A'i egwyddorion purlan per
Fydd fel y ser yn gweini.

Un o enwogion Prydain fawr
Holl deulu'r llawr a gofia ;
Am ei leshad dros fôr a thir,
Ei enw 'n hir flodeua.

Cofleidia bawb, fe gar y byd,
Darostwng lid Ceidwadwyr ;
Trwy ei ddoethineb gyr ar goll
Ddichellion holl ormeswyr.

Dymuniad dynion, fyrdd a chant,
Yw llwyddiant Mr. Gladstone ;
O bydded iddo i gael byw
Er cyrhaedd gwiw amcanion.

EDWARD WILLIAMS (IOLO BACH).

Glanteifi.

EMYN.

Dad Trugarog, dyro'th fendith
Ar fy ymdrech, egwan i,
I roi nghalon yn ddiragrith,
Yn dy hardd wasanaeth Di :
Arglwydd, arwain
F'enaid o'r anialwch blin.

Goleu'r Groes, O ! Dduw, llewyrched
Ar fy llwybrau dryslyd i,
Fel y gwelwy'r ffordd i gerdded,
Yn ddi-dramgwydd atat Ti :
Arglwydd, arwain
F'enaid o'r anialwch blin.

CYNONWYSON.

MARWOLAETH Y DYN DA.

(*John Jones, Banc.*)

"Mewn heddwch â dynion a'i Dduw,
Gadawodd y byd a'i drallodion ;
Fe hunodd,—ond deffry i fyw,—
Yn ngwynfa y bendigedigion."

Disgynodd ei babell i'r bedd,
A'i ysbryd ehododd uwch tristyd,
A gwenau y nef ar ei wedd,
Yn wrol, fe nofiodd i'r bywyd !

ANAD.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU :—T.L., Cowbridge ; W.J., Cwmbach ; S.S., Oxford ; W. G., Pontyberem ; T.J., Rhydowen ; Mrs. E., New Quay ; D.E., Cwmdu.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU :—Pris 3c., trwy'r post 3½c. ; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

THE EDITOR OF "YR YMOFYNYDD,"
IVY COTTAGE,
ABERDARE.

Y CYFARFOD CHWARTEROL NESAF

A gynnelir yn Hen Dy Cwrdd, Aberdar, Mawrth 28 a 29, y Parch. R. C. Jones i bregethu boreu dydd Iau. Pwnc y Gynnadledd : Pa mor bell y mae y cyfnewidiadau a wnaed yn ddiweddar yn y Testament Newydd Seisnig yn dylanwadu ar y Dduwinyddiaeth boblogaidd. Dysgwylir y Parch. W. James, B.A., i ddarllen papyr arno. Pregethir yn Saesneg gan y Parch. Hobart Clarke, Caerdydd.

"Y Faner Uchel" a "Gwyliedydd beth am y nos." Anfonir copi o bob un ar dderbyniad gwerth Tair Ceiniog o *stamps*.

EIN LLYFR EMYNAU.

Bwriedir myned i'r wasg ag ef gynted y gellir. Anfoner pob archebion at y Golygydd ar unwaith. Teimlir yn ddiolchgar am bob help i ddiwygio gwallau ac am unrhyw awgrymiadau. Ni fwriedir ychwanegu at na thynu oddiwrth yr hen argraffiad. Hyspysir y telerau yn y nesaf.

YN AWR YN BAROD, PRIS SWLLT,

LLAWLYFR YR UNDODWR:

GAN

ROBERT SPEARS, LLUNDAIN,

Wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg, trwy ganiatad yr Awdwr, gan

DAVID EVANS.

Dylasai y llyfr cynnwysfawr hwn fod yn llaw pob ymchwiliwr am y gwirionedd. Gellir cael unrhyw nifer o hono ond anfon at *David Evans, Bodawel, Llanwnen, Carmarthen.*

D.S.—Yr elw arferol i Lyfrwerthwyr ac ereill yn cymmeryd dwsin ac uchod.